



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams

Dydd Mawrth, 9 Mai 2023 am 2.00 pm

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

P M Black  
M H Jones  
R D Lewis

**Y Cyngorydd(wyr)**

P Downing  
S E Keeton  
T M White

**Y Cyngorydd(wyr)**

A J Jeffery  
M B Lewis  
R A Williams

**Swyddog(ion)**

Gareth Borsden  
Matthew Bowyer  
Ian Davies  
Eilian Jones  
Sally-Ann Evans  
Jonathan Wills

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
Prif Beirianydd Telematics  
Rheolwr Datblygu  
Arweinydd Tîm Ardal  
cyfreithiwr arweiniol  
cyfreithiwr arweiniol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wyr): N L Matthews

---

**55 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**56 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

**57 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Gohiriwyd y ceisiadau canlynol gan Swyddogion oherwydd materion yn ymwneud â chylchrediad gohebiaeth i bartïon â buddiant cyn y cyfarfod.

Eitem 1 - 2023/0381/FUL - Codi estyniad cefn (6,226sq.m) i'r ganolfan warws a dosbarthu bresennol ynghyd â dymchwel y cysylltiad presennol rhwng adeiladau

a rhan o'r adeilad presennol i hwyluso'r gwaith o ychwanegu bae llwytho newydd yn Uned 8, Ystâd Ddiwydiannol Lye, Pontarddulais, Abertawe.

Eitem 3 - 2022/2988/S73 - Adeiladu Parc Grid Gwyrddach sy'n cynnwys storio ynni ac offer cydbwysu grid, gan gynnwys newid defnydd o dir pori amaethyddol, ynghyd â seilwaith cysylltiedig, tirlunio a llwybr mynediad. Amrywio amod 2 (cynlluniau) caniatâd cynllunio 2021/0163/FUL a roddwyd ar 9 Awst 2021 i ganiatáu newidiadau i offer a chynllun arfaethedig ar dir i'r gorllewin o Heol Rhydypany, Treforys, Abertawe.

Eitem 4 - 2022/0677/S73 - Datblygiad preswyl (31 anhedd) gyda seilwaith ffyrdd cysylltiedig, darpariaeth draenio a thirlunio (Amrywiad/dileu Amodau 2, 14, 19, 20, 24, 28 a 34 o ganiatâd cynllunio 2018/2634/FUL a roddwyd ar 18/11/2021 - mân newidiadau i ymddangosiad allanol a chynllun mewnol nifer o anheddau, (heb unrhyw newid yn y gymysgedd graddfa uned arfaethedig, cynllun cyffredinol y safle), amnewid nifer o gysgodfeydd ceir gyda garejys a darparu gwybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani fel rhan o'r caniatâd presennol cyn dechrau'r datblygiad) ar dir oddi ar y lôn uwch, Langland, Abertawe.

Ni effeithiwyd ar eitem 2 - 2022/2489/S73 gan y mater a gellid ei ystyried yn y cyfarfod.

(Sylwer: Mae Pwyllgor Cynllunio Arbennig wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 17 Mai i ystyried y gohiriadau uchod)

## 58 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio Dinas.

**Penderfynwyd** bod y ceisiadau cynllunio a nodir isod yn cael eu cymeradwyo.

**#(Eitem 2) - Cais Cynllunio 2022/2489/S73 - Datblygiad preswyl sy'n cynnwys manau agored cyhoeddus a ffyrdd mynediad newydd o Ffordd Gower View a Ffordd Brynafon (amlinell) (Amrywio amodau 1, 3 a 4 caniatâd cynllunio 2005/2355 a roddwyd ar 23 Ebrill 2010) i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cyflwyno Materion a Gadwyd yn Ôl ar yr ardal safle sy'n weddill yn unol â'r Datganiad Dylunio a Mynediad diwygiedig a'r Uwchgynllun (Amrywio amod 28 o ganiatâd cynllunio 2019/0911/S73, a roddwyd ar 8 Hydref 2019) i ganiatáu defnydd ychwanegol ar gyfer adeilad y gymuned o dan Ddosbarth A3 (Caffi)**

Cafwyd cyflwyniad gweledol.

Cymeradwywyd **cais** yn ddarostyngedig i Weithred Amrywiad A106 yn unol â'r argymhelliad ac yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol canlynol:

28. Ni ddylid cymryd danfoniadau neu eu hanfon o'r defnydd A3 a gymeradwyd y tu allan i oriau 07:00 i 19:00 ar unrhyw ddiwrnod.

Rheswm: Diogelu mwynderau meddianwyr cyfagos, yn unol â Pholisi PS 2 Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025.

29. Ni fydd yr A3 a gymeradwywyd trwy hyn yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol nes bod cynllun rheoli gwastraff wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy a bydd yn cael ei gadw am oes y datblygiad a gymeradwyir drwy hyn.

Rheswm: Sicrhau darpariaeth rheoli gwastraff digonol, yn unol â Pholisi RP 10 Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025.

**59 Penderfyniad yr apêl - Cyfeirnod Cais Cynllunio: 2020/2629/FUL - Dymchwel yr annedd bresennol ac adeiladu bloc 4 llawr sy'n cynnwys 3 fflat - 2 Broadview Lane, y Mwmbwls, Abertawe.**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn amlinellu manylion adroddiad yr arolygwyr ynghylch apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i beidio â rhoi caniatâd cynllunio yn ymwneud â'r cais a amlinellir uchod.

Roedd yr arolygydd wedi wffio'r apêl ac atodwyd canfyddiadau manwl ei adroddiad yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.31 pm

**Cadeirydd**